

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

SWYDD-DDISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD	Prif Weithredwr
ADRAN	
GWASANAETH/TÎM	
AT DDIBENION ADOLYGU A DATBLYGIAD PERSONOL	Arweinydd y Cyngor
GRADD	
RHEOLI FERSIWN (RHOWCH DDYDDIAD Y DATBLYGIAD)	Medi 2017

ADRAN 1: DIBEN Y SWYDD

Gweithio ag Aelodau Etholedig i ddarparu gweledigaeth, arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol i'r Cyngor a sicrhau bod gan y Cyngor strwythur, rheolaeth ac adnoddau priodol i gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion corfforaethol.

Arwain, datblygu a herio'r Tîm Rheoli Strategol i sicrhau bod ansawdd gwasanaethau a rheolaeth y Cyngor yn cael ei gynnal, ei ddatblygu ac yn canolbwyntio ar y cwsmer.

Ymgymryd â chyfrifoldebau statudol fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yr Awdurdod.

ADRAN 2: DIMENSIYNAU - trowch at y siart strwythur

ADRAN 3: PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

RHI F	Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau
1	Gweithio mewn partneriaeth ag Aelodau i ddatblygu a chyfleu gweledigaeth, cyfeiriad strategol, blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor, a chadw golwg ar gyflawniad y rhain yn ymarferol, gan gymryd cyfrifoldeb am berfformiad corfforaethol cyffredinol.
2	Cefnogi a chynghori Aelodau i sicrhau bod polisiau a strategaethau priodol yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor a'u gweithredu'n effeithiol, bod perfformiad yn cael ei fonitro'n effeithiol ac y rhoddir arweiniad neu gyfarwyddyd lle bo'n briodol.
3	Cyflawni dyletswyddau statudol Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a gweithredu'r awdurdodau a ddirprwyir i rôl y Prif Weithredwr yn briodol, yn unol â chyfansoddiad y Cyngor.

4	Sicrhau y cedwir yn gaeth at y darpariaethau cyfreithiol, statudol, ariannol a democrataidd sy'n llywodraethu neu'n effeithio ar y Cyngor.
5	Cydweithio'n agos â'r holl aelodau etholedig, yn enwedig y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol, i roi cyngor amserol a sicrhau penderfyniadau er mwyn gallu gwneud cynnydd ar faterion o bwys corfforaethol a hyrwyddo perthynas iach rhwng Aelodau a Swyddogion.
6	Arwain, rheoli a datblygu'r bobl sy'n uniongyrchol atebol i'r Prif Weithredwr (gan gynnwys 2 Gyfarwyddwr Gweithredol, gydag 1 yn dal rôl statudol, 3 Swyddog Statudol ac Ysgrifennydd Personol y Prif Weithredwr ei hun), gan ddyrannu cyfrifoldebau'n glir a chadw golwg ar sefydliad systemau arfarnu, rheoli risg a rheoli effeithiol er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n effeithiol ac wedi'u cyd-drefnu, a chefnogi datblygiad proffesiynol unigolion.
7	Sicrhau bod Cyfarwyddwyr Gweithredol yn atebol am gyflawni eu blaenoriaethau corfforaethol, eu blaenoriaethau gwella a'u cyfrifoldebau allweddol eraill.
8	Cyfathrebu'n effeithiol a chynnal protocolau adrodd gyda phob Swyddog Statudol ac ymateb yn briodol i argymhellion a wneir gan Swyddogion Statudol.
9	Cadeirio a datblygu'r Tîm Rheoli Strategol a datblygu gallu sefydliadol ehangach, gan sicrhau bod adnoddau'r sefydliad yn cael eu targedu a'u rheoli'n briodol a defnyddio hyblygrwydd lle bo angen i gyflawni amcanion y dyfodol.
10	Gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor trwy ddenu'r arian y mae'r sefydliad ei angen i gyflawni ei amcanion tymor byr a thymor hwy.
11	Cefnogi datblygiad diwylliant o ddysgu a rheoli perfformiad sy'n pennu amcanion clir ar gyfer perfformiad unigolion a pherfformiad gwasanaethau, sydd wedi'i seilio ar egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ac ar draws gwasanaethau, sydd wedi'i gysylltu â deilliannau a benderfynir gan ddangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol fel bo'n briodol, ac sy'n anelu am welliant parhaus ar draws y gwasanaethau.
12	Dangos ac arwain ymrwymiad i ddiwylliant sefydliadol sy'n arloesol ac yn canolbwyntio ar y cwsmer, gan gymryd risgiau rheoledig i sicrhau gwell llwyddiant a chynnal amgylchedd lle mae'r staff yn cael eu hysbrydoli a'u cymell i roi o'u gorau.
13	Gweithredu fel prif lysgennad y Cyngor, gan gynrychioli a hyrwyddo'r Awdurdod ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol er mwyn codi proffil Wrecsam a chyflawni ei amcanion, yn ogystal ag adnabod, rhannu a gweithredu arferion gorau o ystod o ffynonellau, a dylanwadu ar lunio polisiau cenedlaethol.
14	Deall, datblygu a rheoli partneriaethau cymhleth sy'n cynnwys asiantaethau eraill y sector cyhoeddus, y Cynulliad, grwpiau busnes, cymunedol a gwirfoddol, er mwyn sicrhau datblygiad Wrecsam a gwella ansawdd bywyd trigolion yr ardal.

15	Sicrhau bod gwasanaethau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ymatebol i amgylchiadau lleol ac yn bodloni egwyddorion gwerth gorau, a bod adrannau'n gweithio'n drwyadl i sicrhau ansawdd y gwasanaeth, yn cymhwyso safonau'n deg ac yn gyson ac yn meddu ar fecanweithiau cadarn i fonitro effaith darparu gwasanaethau.
16	Gwerthfawrogi amrywiaeth cymunedau Wrecsam, gan sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad a sut y mae pobl yn cael eu trin mewn perthynas â darparu gwasanaethau a chyflogaeth.
17	Cymryd prif gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch yr holl weithwyr neu eraill a allai gael eu heffeithio gan weithgareddau a swyddogaethau'r Cyngor, a sicrhau bod adnoddau digonol ar gael er mwyn i'r Cyngor allu bodloni ei ymrwymadau cyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
18	Gweithredu fel Swyddog Canlyniadau a Swyddog Cofrestru Etholiadol.
19	Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gyson â'r uchod ac/neu'n rhesymol fel rhan o rôl Prif Weithredwr.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adolygu cwmpas y swydd-ddisgrifiad hwn, a gallai ei gynnwys gael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd.

ADRAN 4: Cymwyseddau ymddygiadol yn seiliedig ar werthoedd - Tudalen 7

ADRAN 5: Elfennau penodol i'r swydd – Ddim yn berthnasol i'r swydd hon

--

Cymalau Safonol Swydd-ddisgrifiadau pob swydd:

Gwerthuso Swyddi: Lluniwyd y swydd-ddisgrifiad hwn i gefnogi proses werthuso swyddi HAY.

Dyletswyddau Eraill: Nid yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau yn y swydd-ddisgrifiad hwn yn gynhwysfawr. Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau eraill a neilltuir neu a ddirprwyir gan y Prif Weithredwr, sy'n gyson â'r uchod ac o fewn cwmpas cyffredinol swydd Cyfarwyddwr Gweithredol.

Adolygu: Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adolygu cwmpas y swydd-ddisgrifiad hwn, a gallai ei gynnwys gael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd.

Teitl y Swydd	Prif Weithredwr
ID Gwerthuso Swydd	
Gradd	Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Cenedlaethol (JNC)

Gofynion	Hanfodol	Dymunol	Dull mesur*
Cymwysterau			
Addysg hyd at lefel gradd neu gyfwerth.	Y		Ff/ T
Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol a rheoli parhaus perthnasol	Y		Ff/ T
Cymhwyster rheoli lefel uwch, e.e. MBA neu gyfwerth		Y	Ff/ T
Gwybodaeth a Phrofiad Arbenigol			
Profiad helaeth o weithio'n llwyddiannus mewn rôl uwch reolwr mewn sefydliad cymhleth, fel Awdurdod Lleol sylweddol	Y		Ff/C
Hanes o gyflawni wrth arwain a gwneud cyfraniad cyson i arweinyddiaeth strategol, gwneud penderfyniadau, llunio polisiau a darparu gwasanaethau	Y		Ff/C
Gwybodaeth am yr ystod eang o faterion sy'n wynebu unigolion, cymunedau a'r llywodraeth, yn lleol ac yn ganolog, a'u goblygiadau o ran cynllunio a darparu gwasanaethau	Y		Ff/C
Gallu gweithio'n gorfforaethol a rheoli adnoddau'n effeithiol mewn amgylchedd cymhleth, gan gynnwys gallu deall a dehongli gwybodaeth ariannol a chyllidebol gymhleth a thrafod a dylanwadu i gyfeirio adnoddau	Y		Ff/C
Gallu sefydlu mesuryddion perfformiad effeithiol ar gyfer unigolion a gwasanaethau a gwerthuso ansawdd gwasanaeth a pherfformiad unigol er mwyn cyflawni gwelliannau arwyddocaol i sicrhau gwerth gorau	Y		Ff/C
Profiad helaeth o reoli, a llwyddiant wrth arwain a rheoli newidiadau diwylliannol a sefydliadol	Y		Ff/C
Gallu dilyn a dehongli datblygiadau cenedlaethol a datblygiadau mawr eraill wrth iddynt effeithio ar waith y Cyngor, a'u cyflwyno i Aelodau Etholedig yn amserol ac yn effeithiol er mwyn gwneud y mwyaf o allu'r Cyngor i arwain a dylanwadu ar ddigwyddiadau yn hytrach nag ymateb iddynt yn unig	Y		Ff/C
Llwyddo i ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol, ennyn ymddiriedaeth a dylanwadu ar bartneriaethau i ddarparu gwasanaethau	Y		Ff/C
Profiad o, a pharodrwydd i wneud penderfyniadau	Y		FfG/C/P

anodd neu ddadleuol, a'r gallu i reoli gwrthdaro mewn modd cadarnhaol			
Gallu siarad Cymraeg		Y	Ff/C/P
Sgiliau Ymarferol a Deallusol			
Gallu datblygu a chyfleu gweledigaeth o sut y dylai'r sefydliad weithredu yn y dyfodol, ac uno eraill i gydweithio er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno	Y		Ff/C
Gallu meddwl yn greadigol ac yn arloesol wrth ddatblygu, argymell ac arwain mentrau a pholisïau strategol er mwyn helpu cyflawni nodau'r sefydliad	Y		Ff/C
Gallu bod yn arweinydd sy'n ysbrydoli, gan gefnogi, cymell a grymuso grŵp mawr ac amrywiol o bobl ar bob lefel yn y sefydliad	Y		Ff/C/P
Gallu darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a hyrwyddo cydweithrediad, arloesi a hyblygrwydd, gan feithrin diwylliant cadarnhaol yn y sefydliad mewn amgylchedd sy'n newid	Y		Ff/C
Gallu cyflawni canlyniadau llwyddiannus trwy eraill gan ddefnyddio sgiliau arwain, ysbrydoli a chymell yn ogystal â darparu cefnogaeth ac ymyrraeth uniongyrchol i ddatblygu perfformiad uchel ymysg y bobl sy'n uniongyrchol atebol i'r Prif Weithredwr	Y		Ff/C
Y dewrder a'r dyfalbarhad i gadw golwg ar y broses o ddatrys materion a phrosiectau arwyddocaol yn llwyddiannus	Y		Ff/C
Sensitifrwydd gwleidyddol datblygedig a dealltwriaeth o, neu'r gallu i feithrin dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol Cymreig, gan gynnwys y cyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli a'r gwahaniaethau deddfwriaethol	Y		Ff/C
Rhinweddau Personol			
Gallu dangos ymddygiad priodol sy'n cyd-fynd â gwerthoedd y Cyngor (gweler y cymwyseddau ymddygiadol sy'n seiliedig ar werthoedd sydd ynghlwm)	Y		
Lefel uchel o ymwybyddiaeth a sensitifrwydd gwleidyddol ac ymrwymiad i weithio'n agos gyda'r holl gynghorwyr a mudiadau a chymunedau lleol	Y		Ff/C
Sgiliau cyfathrebu rhagorol er mwyn bod yn eiriolwr credadwy ac argyhoeddiadol dros y Cyngor, a gallu ymwneud â phobl ar bob lefel, o fewn a thu allan i'r Cyngor	Y		Ff/C/P
Natur agored, ddarbwyllol a pharod i hwyluso gyda lefel uchel o sgiliau rhyngpersonol	Y		Ff/C
Sgiliau diplomyddol datblygedig iawn, yn enwedig wrth ysgogi, trafod a dwyn perswâd ar eraill, gan gynnwys sefydliadau partner	Y		Ff/C
Cyflwyniad personol proffesiynol a lefel o hunanymwybyddiaeth sy'n helpu i greu cysylltiadau a hygrededd, ymddiriedaeth a hyder	Y		C

Gallu herio eraill mewn modd adeiladol a gwella perfformiad eraill trwy gyfrwng sgiliau hyfforddi/mentora	Y		Ff/C
Tystiolaeth o allu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm yn ogystal â fel arweinydd	Y		Ff/C
Hyblygrwydd amlwg wrth feddwl a gweithredu i helpu llunio sefydliad effeithiol ac effeithlon	Y		Ff/C/P
Deall pwysigrwydd y Gymraeg a Diwylliant Cymru ac os nad ydych yn siarad Cymraeg, ymrwymiad i ddysgu Cymraeg sylfaenol er dibenion busnes	Y		Ff/C
Brwdfrydig, ymroddgar, llawn hunan-gymhelliant, gydag ymdeimlad cryf o bwrpas a'r awch i lwyddo	Y		Ff/C
Dangos dygnwch dan bwysau	Y		Ff/C/P
Amgylchiadau Personol			
Gallu teithio ar draws y Fwrdeistref Sirol i gyflawni'r gwaith (e.e. mynd i gyfarfodydd/ymweld â budd-ddeiliaid neu safleoedd gwaith)	Y		C/T
Lefel uchel o onestrwydd ac uniondeb	Y		Ff/C/P
Profiad o, a pharodrwydd i weithio i hyrwyddo proffil y sefydliad a gweithredu fel llysgennad, gan osod esiampl yn fewnol ac yn allanol	Y		Ff/C
Cydraddoldeb			
Gwybodaeth ac ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth	Y		Ff/C
Ymrwymiad personol a thystiolaeth o lwyddiant wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth o ran darparu gwasanaethau a chyflogaeth	Y		Ff/C

* Mae'n rhaid i bob un o'r gofynion a bennir fod yn fesuradwy. Nodwch y dull a ddefnyddir i asesu a yw'r ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion:

Ff Ffurflen Gais
C Cyfweiliad

T Tystysgrif Cymhwyster
P Prawf

Cymwyseddau ymddygiadol yn seiliedig ar werthoedd

YMDDIRIEDAETH					
Dweud beth yr ydych am ei wneud, gwneud hynny a rhoi gwybod i bobl beth yr ydych wedi'i wneud. Magu hyder pobl a gallant ddibynnu arnoch i wneud yr hyn sy'n iawn, neu ddarparu'r hyn sydd ei angen					
<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu ar gamau ac ymrwymadau 	<ul style="list-style-type: none"> Cymryd cyfrifoldeb yn gyhoeddus am weithredoedd, a rhoi clod i eraill lle mae hynny'n ddyledus 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfathrebu mewn ffordd agored a thryloyw, darparu esboniadau cywir a syml, osgoi jargon/termau technegol 	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi amgylchedd gwaith lle gall pawb siarad a gweithredu heb fod ofn cael bai neu ddiodef ôl-ffeithiau 	Ymddygiad arwain <ul style="list-style-type: none"> Datblygu partneriaethau (mewnol ac allanol) er budd y Cyngor a defnyddwyr y gwasanaethau cyfleu gweledigaeth glir o'r canlyniadau a ddymunir cyflwyno'r weledigaeth gyda hyder a brwdfrydedd 	Ymddygiad negyddol <p>Cyfathrebu anghyson, peidio rhannu gwybodaeth, torri addewidion, osgoi cyfrifoldeb / trosglwyddo camau gweithredu ymlaen i eraill yn amhriodol, peidio dangos empathi na thosturi tuag at eraill, hyrwyddo eich sefyllfa eich hun yn amhriodol wrth drafod mater.</p>
PARCH					
Gwerthfawrogi ac ystyried y bobl a'r cymunedau rydych yn cydweithio â hwy, hyrwyddo manteision cael amrywiaeth o safbwyntiau, sgiliau a phrofiadau					
<ul style="list-style-type: none"> Gwneud i eraill deimlo'n 	<ul style="list-style-type: none"> Trin gwybodaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfathrebu mewn modd 	<ul style="list-style-type: none"> Rheoli eich emosiynau, 	Ymddygiad arwain <ul style="list-style-type: none"> Dangos esiampl o weithio'n 	Ymddygiad negyddol <p>Beirniadu pobl eraill neu'r Cyngor, bod yn</p>

gyfforddus, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd anodd, trin eraill yn deg, dangos parch tuag at eu barn, hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth	sensitif neu gyfrinachol yn briodol	amserol a chywir, deall pwy fydd yn cael eu heffeithio gan broblem / newid a sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac y cyfathrebir â hwy'n briodol	mynd i'r afael â materion yn adeiladol mewn modd proffesiynol a diffwdan	effeithiol mewn tîm, e.e. ymgynghori, adborth adeiladol a her gefnogol <ul style="list-style-type: none"> ymgysylltu ac ymgynghori â budd-ddeiliaid o bob cymuned 	anghwrtais neu'n ddiamynedd gydag eraill, arddangos ymddygiad neu iaith wahaniaethol, gweithredu fel pe baech dan fygythiad pan fyddwch yn wynebu pobl sydd â mwy o wybodaeth / profiad, dim ymwybyddiaeth o deimladau pobl eraill a methu cefnogi cydweithwyr.
ARLOESI					
Uchelgais a brwdfrydedd i fod yn greadigol a sicrhau mai Wrecsam yw'r gorau, gweithredu ffyrdd newydd o feddwl a gweithio i gyflawni gwelliant parhaus a goresgyn heriau yn y gweithle					
<ul style="list-style-type: none"> Manteisio ar gyfleoedd i lywio newid, cyfrannu syniadau ac awgrymiadau 	<ul style="list-style-type: none"> Cydweithio ag eraill, agored i syniadau newydd ac annog atebion newydd ond ymarferol i broblemau 	<ul style="list-style-type: none"> Herio arferion sefydledig i fynd ar drywydd gwelliant parhaus 	<ul style="list-style-type: none"> Ymateb i sefyllfaoedd sy'n newid wrth iddynt godi gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth 	Ymddygiad arwain <ul style="list-style-type: none"> Creu, meithrin a chynnal hinsawdd o welliant parhaus a brwdfrydedd tuag at gyfleoedd strategol, 	Ymddygiad negyddol <p>Amharod i fabwysiadu syniadau neu ffyrdd o weithio newydd, wastad yn delio â phroblemau ac yn osgoi mynd i'r afael â gwraidd y broblem, gweithredu o fewn 'man cyfforddus', ymateb</p>

				sefydliadol a datblygiadol	yn wael i her / adborth gan eraill
HYBLYGRWYDD					
Gallu addasu i newidiadau a chreu hinsawdd newydd i gyflawni canlyniadau, croesawu arferion newydd					
<ul style="list-style-type: none"> Parod i addasu cynlluniau, amcanion ac ymddygiad er mwyn ymateb i newidiadau mewn amodau a chyfrifoldebau gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> Bod yn fodlon 'rhoi cynnig arni' neu bod yn benderfynol o lwyddo 	<ul style="list-style-type: none"> Annog a chefnogi eraill i addasu i newid, esbonio'r rhesymau dros newid 	<ul style="list-style-type: none"> Dod dros rwystrau ac anawsterau annisgwyl yn gyflym, canfod ffyrdd eraill o gyflawni amcanion 	Ymddygiad arwain <ul style="list-style-type: none"> Dangos ymdeimlad clir o bwrpas Ystyried effaith wleidyddol camau gweithredu a gweithio'n gadarnhaol o fewn y broses wleidyddol 	Ymddygiad negyddol Amharod i newid, agwedd gul tuag at waith/cyfrifoldebau, amharod i dderbyn agweddau newydd neu ychydig yn wahanol ar waith, anwybyddu adborth, methu ymateb i'r annisgwyl.
UNIONDEB					
Hyder mewn pobl i gyflawni, atebolrwydd ar y lefel gywir					
<ul style="list-style-type: none"> Cymryd cyfrifoldeb am ansawdd y gwaith, cadw addewidion ac ymrwymadau a wnaed i gydweithwyr, goruchwylwyr / 	<ul style="list-style-type: none"> Ymddwyn mewn ffordd sy'n annog dysgu – cydnabod camgymeriadau, dysgu o brofiad 	<ul style="list-style-type: none"> Cydnabod gwrthdaro buddiannau ond cadw at benderfyniadau sydd er budd y Cyngor hyd yn oed os nad 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd sy'n dangos dealltwriaeth o safbwyntiau pobl eraill ac yn cynnal 	Ymddygiad arwain <ul style="list-style-type: none"> Deall goblygiadau risg, blaenoriaethu nodau strategol hirdymor dros 	Ymddygiad negyddol Dweud un peth a gwneud rhywbeth arall, beio eraill am gamgymeriadau neu benderfyniadau amhoblogaidd, cuddio

rheolwyr, cwsmeriaid		ydynt yn boblogaidd <ul style="list-style-type: none"> 	safonau uchel o broffesiynoldeb, hyd yn oed pan fydd gwrthdaro	gyfleoedd tactegol tymor byr	camgymeriadau, methu cydnabod gwaith da, talu ychydig iawn o sylw i reolau iechyd a diogelwch/diogelu neu reolau eraill, amharchus tuag at gydweithwyr ac/neu gwsmeriaid, anwybyddu ymddygiad gwael pobl eraill.
YMRWYMIAD					
Cyfrannu'n weithredol at gyflawniadau'r Cyngor, wedi ymroi i gyflawni ein blaenoriaethau a dod yn gymuned gref					
<ul style="list-style-type: none"> Ymroi i'r dasg, peidio rhoi'r ffidil yn y to, dal ati i weithio ar dasg hyd y pen a gwneud popeth posib i gwblhau gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal presenoldeb, annog, hyfforddi a chefnogi eraill i ddal ati i fod yn gynhyrchiol ac yn rhagweithiol, cymryd camau i'ch datblygu eich hun 	<ul style="list-style-type: none"> Cydnabod, gwobrwyo a gwerthfawrogi cyfraniadau unigolion a'r tîm 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu dealltwriaeth o anghenion cwsmeriaid er mwyn rhagweld a rheoli galw, opsiynau gwasanaeth a chyfleoedd 	Ymddygiad arwain <ul style="list-style-type: none"> Mynd ati i ddatblygu sgiliau er mwyn ymestyn y sefydliad, creu diwylliant o rymuso, cydnabod, dysgu a thyfu 	Ymddygiad negyddol Methu cyrraedd targedau, osgoi cyfrifoldeb, amharod i ymgysylltu, gwneud ychydig iawn o gyfraniad i wella tîm/gwasanaeth, arddangos gwerthoedd anghyson

ADRAN 6: SIART STRWYTHUR

